

**BPCA**

British Pest  
Control  
Association

# ATAL GWARCHOD PROFFESIYNOLDEB

Maniffesto rheoli plâu  
er budd iechyd y cyhoedd yng Nghymru



**[bpca.org.uk/policy](https://bpca.org.uk/policy)**

Hybu rhagoriaeth ym maes rheoli plâu

# POLISI AR DUDALEN



Rydym am i Lywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i flaenoriaethu iechyd y cyhoedd, a lleihau'r gofid sy'n cael ei achosi drwy reoli plâu yn annigonol. Mae Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain (BPCA) yn gofyn i wleidyddion gefnogi pedwar cam gweithredu allweddol:

## Gwarchod cartrefi rhag plâu

- Mae rhai rhentwyr a pherchnogion tai yn byw gyda phlâu y mae modd eu hatal yn llwyr, sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n sâl ac yn ddiflas
- Mae landlordiaid diog yn gallu gadael tenantiaid mewn sefyllfa fregus o ran pla drwy waith cynnal a chadw gwael, mynd ati'n araf deg i wneud gwaith atgyweirio, a chyfleusterau annigonol ar gyfer rheoli gwastraff
- Dim ond tenantiaid cymdeithasol sydd â gwarchodaeth ddigonol.

**Sicrhau bod Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael ei defnyddio ar gyfer y sector rhentu preifat, er mwyn i bob tenant yng Nghymru allu byw mewn cartref gweddus.**

## Cyfyngu offer proffesiynol i ddefnyddwyr proffesiynol

- I raddau helaeth, nid yw'r gwaith rheoli plâu yn cael ei reoleiddio
- Mae plaladdwyr a ddefnyddir er budd iechyd y cyhoedd yn gallu niweidio bywyd gwyllt, adar ysglyfaethus, bywyd dyfrol, anifeiliaid anwes, ac iechyd pobl
- Gall cynhyrchion rheoli plâu achosi pryderon difrifol o ran lles anifeiliaid pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio'n anghywir
- Gellir defnyddio plaladdwyr a thrapiau at ddefnydd proffesiynol heb fawr ddim hyfforddiant, os o gwbl
- Mae cynlluniau trwyddedu unigol yn bodoli ar gyfer rhai cynhyrchion, ond nid ar gyfer gweithwyr proffesiynol unigol ym maes rheoli plâu
- Mae llawer o gwmnïau rheoli plâu yn dewis hunanreoleiddio drwy ymaelodi â Chymdeithas Rheoli Plâu Prydain.

**Mynnu bod rheolwyr plâu proffesiynol wedi cael eu trwyddedu er mwyn ymarfer. Gosod safon drwyddedu sy'n cyfateb i'r safonau gwirfoddol y mae 80% o'r sector eisoes yn glynu wrthynt.**

## Hybu cynllun TrustMark

- Mae angen rhyw elfen o waith rheoli plâu er budd iechyd y cyhoedd ar bob un o ystadau'r llywodraeth
- Mae gan y Llywodraeth gynllun cymeradwy yn barod ar gyfer cwmnïau o safon ym maes rheoli plâu: TrustMark
- Fel arfer does dim angen busnesau TrustMark (pan fyddan nhw ar gael) ar gartrefi'r cyngor, ysbytai, carchardai ac adeiladau'r llywodraeth
- Cynyddu hyder defnyddwyr mewn crefftwyr drwy hyrwyddo TrustMark
- Bod 80% o'r holl gwaith rheoli plâu yn cael ei wneud gan gwmni sydd wedi cofrestru â TrustMark.

**Datgan bod rhaid i bob ystad a reolir gan Lywodraeth Cymru ddewis cwmni rheoli plâu sydd wedi cofrestru â TrustMark, lle bynnag y bo modd.**

## EAnnog wynebau newydd i ymuno â'r sector

- Bydd newid hinsawdd yn cynyddu nifer y plâu, a'r problemau maen nhw'n eu hachosi
- Mae angen mwy o weithwyr proffesiynol medrus ac sydd newydd gymhwyso i ymateb i'r heriau cynyddol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru

**Gweithio gyda'r sector i hybu'r maes rheoli plâu fel gyrfa fedrus sy'n rhoi boddhad, gan gefnogi dyfodol iechyd y cyhoedd.**

Drwy wneud penderfyniadau polisi pendant ynghylch rheoli plâu, gall llywodraethau wneud cyfraniad yn y byd go iawn i warchod iechyd a diogelwch y cyhoedd mewn cartrefi a busnesau ac o'u cwrmpas.

[bpca.org.uk/policy](https://bpca.org.uk/policy)

# Cyflwyniad

Mae rheoli plâu yn broffesiynol yn un o sectorau Economi Cymru sy'n aml yn cael ei anwybyddu a'i danbrizio, ond mae'n rhan hollbwysig o'r gwaith o warchod iechyd y cyhoedd, y gadwyn cyflenwi bwyd a diogelwch bwyd, ac yn cyfrannu at fioamrywiaeth drwy reoli rhywogaethau trechol neu oresgynnol. Bydd y bygythiadau hyn yn siŵr o gynyddu yn sgil newid hinsawdd.

Mae'r maniffesto hwn yn ymwneud â'r ffordd orau i Gymru ddefnyddio'r sgiliau a'r profiad sy'n bodoli yn ein sector, er budd pawb arall.

Y ffordd orau y gallwn ni sicrhau bod gan bobl gartrefi y gellir byw ynddynt sy'n gwarchod eu hiechyd corfforol yn ogystal â'u hiechyd meddwl; eu bod yn gallu cael gafael ar fwyd diogel a maethlon; yn ogystal â'r ffordd rydym yn gwarchod ein treftadaeth naturiol rhag rhywogaethau estron goresgynnol, a'n treftadaeth adeiledig rhag difrod ffisegol sy'n cael ei achosi gan blâu.

Hyd yn oed os nad ydych chi erioed wedi dod ar draws pla o'r blaen, byddwch wedi elwa o waith anweledig llawer o weithwyr proffesiynol ym maes rheoli plâu. Mae'r maniffesto hwn yn ymwneud â'r ffordd rydym ni'n sicrhau y gall gwaith y gweithwyr hynny barhau mor effeithiol a chynaliadwy â phosibl.



# Gwarchod cartrefi rhag plâu

Mae gan landlordiaid fwy o rôl i warchod eu tenantiaid rhag plâu na dim ond ffonio rheolydd plâu yn brydlon; rhaid iddyn nhw ddilyn cyngor rheolwyr plâu. Gallai hyn gynnwys mynd ati'n well i reoli cyfleusterau cymunedol ar gyfer gwaredu gwastraff, atgyweirio diffygion yn yr adeilad, neu unrhyw beth arall y mae'r landlord yn unig yn gyfrifol amdano.

I ymateb i gyfraith Awaab, cyflwynodd Cymru newidiadau i Safon Ansawdd Tai Cymru; sydd i fod i ddod i rym fis Ebrill, cyn yr etholiad - dim ond i denantiaid mewn tai cymdeithasol y maen nhw'n berthnasol, ac nid oes addewid o warchodaeth i'r rheini yn y sector rhentu preifat. Ni ddylai wneud gwahaniaeth ble mae eich cartref, na phwy sy'n berchen arno: yr un yw'r risgiau sy'n cael eu hachosi gan blâu.

Mae cnofilod (rodents) yn y DU yn lledaenu clefydau fel leptosbriosis (clefyd Weil), Salmonella spp., a Listeria; sy'n cael eu trosglwyddo i bobl drwy wrin llygod mawr neu gyswllt uniongyrchol ag ardaloedd paratoi bwyd. Mae cnofilod yn gorfod cnoi er mwyn gwarchod eu dannedd - gall pibellau a gwifrau wedi'u cnoi achosi llifogydd a thanau trydanol.

Gall chwilod du (cockroaches), pryfed a thrychfilod eraill ledaenu pathogenau, heintio eich bwyd, a difrodi eich eiddo.

Dydyn ni ddim yn derbyn yr amodau hyn gan fwyta oherwydd y risgiau iechyd, felly pam ydyn ni'n caniatáu'r union amodau hynny yng nghartrefi pobl?





"Ni ddylai wneud gwahaniaeth ble mae eich cartref, na phwy sy'n berchen arno: yr un yw'r risgiau sy'n cael eu hachosi gan blâu."

**Mae'r BPCA yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:**

- **Cydnabod y perygl y mae plâu yn ei achosi i iechyd a lles tenantiaid**
- **Sicrhau gwarchodaeth i bob rhentwr** - dylai pawb sy'n byw mewn llety rhent cymdeithasol, llety rhent preifat, neu lety dros dro gael eu gwarchod.

# Cyfyngu offer proffesiynol i ddefnyddwyr proffesiynol

Os bydd offer rheolwyr plâu proffesiynol yn cael eu camddefnyddio, gallant achosi niwed diangen i fywyd gwyllt, yr amgylchedd, ac iechyd pobl. Rhaid i Gymru barhau i'w cadw allan o ddwylo'r cyhoedd, a sicrhau mai dim ond gweithwyr proffesiynol trwyddedig sy'n gallu cael gafael arnynt.

Mae Cymru wedi bod yn arwain y ffordd i ddiogelu lles anifeiliaid, gyda **Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023** yn cyfyngu ar yr offer proffesiynol sydd ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae hefyd wedi cyfyngu gallu gweithwyr proffesiynol i gael gafael arnynt - y rheini sy'n gallu eu defnyddio mewn ffordd ddynarol ac effeithiol yn unol ag arferion gorau a dull integredig i reoli plâu. Mae gallu ein sector i warchod iechyd y cyhoedd wedi lleihau.

Mae gwarchod iechyd y cyhoedd, lles anifeiliaid, a bioamrywiaeth Cymru yn gofyn am ddiwygiadau cynhwysfawr i'r ffordd mae ein sector a'n hoffer yn cael eu rheoleiddio. Mae'r cymysgedd presennol o hunanreoleiddio a rheoleiddio tameidiog gan y llywodraeth yn annigonol, ac yn aneffeithlon.

- Trapiau glud - wedi'u gwahardd rhag cael eu defnyddio, ond eto mae'n gyfreithlon i'r cyhoedd eu prynu a bod yn berchen arnynt. Mae hyn yn arwain at ddryswch ynghylch eu cyfreithlondeb, ac yn golygu eu bod ar gael i'r cyhoedd eu camddefnyddio
- Trapiau eraill - gall unrhyw un eu prynu a'u gosod heb gael hyfforddiant ar sut mae eu defnyddio'n ddiogel
- Gwenwyn cnofilod - mae unrhyw un sydd â thystysgrif ar ôl gwneud cwrs ar-lein, awr o hyd, a chwis amlddewis yn gallu prynu'r gwenwyn hwn
- Gwenwyn trychfilod - dim gofyniad penodol, dim ond bod y defnyddiwr wedi cael 'hyfforddiant a'i fod yn gymwys', gyda chyflenwyr dibynadwy yn gorfod asesu ar eu pen eu hunain beth mae hynny'n ei olygu, ac efallai na fydd cyflenwyr eraill yn gwneud unrhyw asesiad o gwbl.



**Mae 92% o reolwyr plâu proffesiynol yn credu bod angen trwyddedu'r sector yn ei gyfanrwydd, ac mae 80% wedi dewis hunanreoleiddio drwy ymaelodi â Chymdeithas Rheoli Plâu Prydain.**



"Mae gwarchod iechyd y cyhoedd, lles anifeiliaid, a bioamrywiaeth Cymru yn gofyn am ddiwygiadau cynhwysfawr i'r ffordd mae ein sector a'n hoffer yn cael eu rheoleiddio."

**Mae'r BPCA yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru wneud y canlynol:**

- **Mynnu bod rheolwyr plâu proffesiynol yn cael eu trwyddedu** - gosod y safon fel ei bod yn cyfateb i'r safon y mae 80% o'r sector eisoes yn cadw ati
- **Cyfngu'r holl offer proffesiynol i reolwyr plâu trwyddedig**
- **Sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol trwyddedig yr offer angenrheidiol i warchod iechyd y cyhoedd** - rhoi'r gorau i drwyddedu cynnyrch unigol a symleiddio'r broses reoleiddio, gan alluogi gweithwyr proffesiynol trwyddedig i gael gafael arnynt a'u defnyddio yn ôl yr angen i warchod iechyd y cyhoedd.

# Hybu cynllun TrustMark

Mae angen rheoli pla ar holl ystadau'r llywodraeth, ond mewn system lle nad yw gweithwyr proffesiynol ym maes rheoli plâu yn cael eu trwyddedu, mae'n anodd sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei wario ar wasanaethau o safon. Mae TrustMark yn symleiddio'r broses honno.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i gadw cnofilod o dan reolaeth yn eu hardaloedd. Bydd gan ysbytai, ysgolion, carchardai ac adeiladau seneddol hefyd gytundebau gyda gweithwyr proffesiynol ym maes rheoli plâu, er mwyn mynd ati i reoli plâu mewn ffordd ragweithiol ac adweithiol – fel arfer ar ffurf contract drwy broses dendro.

Bydd manylebau'r prosesau hyn yn amrywio'n fawr, sy'n golygu ei bod yn anodd sicrhau bod arian yn cael ei wario ar wasanaethau o safon.

Mae llywodraeth y DU eisoes wedi datblygu cynllun cymeradwy ar gyfer cwmnïau o safon ym maes rheoli plâu: TrustMark. Fe'i sefydlwyd yn 2005, ac mae'n sefydliad nid-er-elw sy'n ceisio codi safonau a helpu defnyddwyr i ddewis crefftwr dibynadwy.

Mae cofrestriad TrustMark yn dangos y glynir wrth safonau a chodau ymddygiad y diwydiant, sy'n gwella tryloywder ac atebolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau rheoli plâu.

Bydd sicrhau bod cofrestru â TradeMark yn un o amodau'r broses o wneud cais am gontract ar ystadau'r llywodraeth yn helpu i godi safonau yn y diwydiant, ac yn grymuso defnyddwyr i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth wrth ofyn am gymorth.



**Nid oes gofyniad statudol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gynnig gwasanaethau rheoli plâu nac i gael eu hadrannau eu hunain, ond mae ganddyn nhw ddyletswyddau i gadw plâu fel llygod mawr o dan reolaeth.**



"Codi safonau a helpu  
defnyddwyr i ddewis crefftwr  
dibynadwy."

**Mae'r BPCA yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru ddatgan bod rhaid i bob ystad sydd o dan reolaeth y llywodraeth ddewis cwmni rheoli plâu sydd wedi cofrestru â TrustMark, lle bynnag y bo modd**

# Annog wynebâu newydd i ymuno â'r sector

Bydd plâu a'r risgiau maen nhw'n eu hachosi i gartrefi, busnesau ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn her barhaus. Gall ein sector reoli'r risgiau hynny heddiw, ond beth fydd y sefyllfa ymhen 10 neu 20 mlynedd?

Bydd newid hinsawdd yn cynyddu nifer y plâu wrth i amodau amgylcheddol ddod yn fwy ffafriol iddynt, a bydd lefel y risg maen nhw'n ei hachosi i'n cymunedau hefyd yn cynyddu yn dilyn hynny.

Felly, i ateb yr her honno a gwarchod iechyd y cyhoedd, rhaid annog mwy o bobl i ddilyn gyrfa ym maes rheoli plâu.

Mae'r BPCA yn mynd ati i helpu cyflogwyr o bob maint i gyflogi wynebâu newydd, p'un a ydyn nhw newydd adael yr ysgol neu'n awyddus i newid gyrfa, gan gynnig:

- proses gynefino hollgynhwysol ar gyfer wynebâu newydd, gyda hyfforddiant tuag at gymwysterau Lefel 2
- cymorth pwrpasol ar gyfer materion Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch, a threth
- ein hysbysfwrdd swyddi ein hunain ym maes rheoli plâu
- arweiniad ar gynnig profiad gwaith i bobl ifanc
- Siarter Agor Drysau i feithrin gweithlu agored, cynhwysol ac amrywiol

Mae'r BPCA hefyd wedi lansio gwefan newydd, PestCareers, i hyrwyddo gwerth gyrfa ym maes rheoli plâu. Ond mae angen rhagor o gymorth gan Lywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru i sicrhau dyfodol iechyd y cyhoedd yng Nghymru.



"Bydd newid hinsawdd yn  
cynyddu nifer y plâu... ac felly  
lefel y risg maen nhw'n ei  
hachosi i'n cymunedau"



**Mae'r BPCA yn gofyn i Lywodraeth nesaf Cymru gefnogi ymdrechion i annog  
wynebau newydd a chyflogaeth yn y sector rheoli plâu yn broffesiynol.**

---

# GALWADAU AM GYMORTH GAN DENANTIAID Y CYNGOR

"Mae'r holl beth yn achosi gofid enfawr i'r plant. Mae'n uffern, a dydw i ddim eisiau dod adref bellach."

Wales Online / 15 Hydref 2025

---

# Gwybodaeth am ein haelodau

Busnes yn y Fenni yw P&P Pest Control Ltd, sy'n gwasanaethu cymunedau ar draws De Cymru a Swydd Henffordd. Ers blyneddau lawer, mae'r cwmni wedi bod yn cynorthwyo cleientiaid domestig yn ogystal â rhai masnachol, gan gynnwys cymdeithasau tai, ysgolion, safleoedd gofal iechyd a busnesau lleol. Datrys problemau, gweithio gyda phobl, a diogelu iechyd y cyhoedd yw canolbwynt gwaith y cwmni.

Mae cynaliadwyedd yn rhan ganolog o'r busnes. Nid yn unig y mae'n siapio'r ffordd mae triniaethau'n cael eu rhoi ar waith, mae hefyd yn llywio penderfyniadau gweithredol ehangach, fel cynyddu nifer y cerbydau trydan sy'n rhan o'r fflyd.

Mae'r cwmni'n dal i dyfu, ac mae bellach yn cyflogi 17 o bobl. Drwy fynd ati i recriwtio mewn ffordd ragweithiol, mae P&P Pest Control wedi llwyddo i ddenu mwy o fenywod i ddiwydiant sydd, yn draddodiadol, wedi cael ei ddominyddu gan ddynion.

Mae'r cwmni yn enghraifft gref o'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws y sector - gyda chefnogaeth y BPCA a'i Bwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cael ei arwain gan yr aelodau - i sefydlu rheoli plâu fel proffesiwn medrus, cynhwysol a blaengar.



# Gwybodaeth amdanom ni

Y BPCA yw sefydliad aelodaeth nid-er-elw'r DU ar gyfer y sector rheoli plâu yn broffesiynol. Rydym yn cynrychioli dros 700 o gwmnïau ac unigolion, sy'n amrywio o fusnesau teuluol i ddarparwyr gwasanaethau amlwladol.

Mae'r Gymdeithas yn eirioli dros safonau uwch a phroffesiynoldeb yn y diwydiant. Mae'r BPCA yn canolbwyntio ar warchod iechyd y cyhoedd, ennyn hyder defnyddwyr, a sicrhau bod effeithiolrwydd dulliau rheoli plâu yn parhau i wella drwy ddefnyddio atebion arloesol a thechnoleg newydd.

Nod cyffredinol y BPCA yw proffesiynoli'r diwydiant, gan bwysleisio rôl hanfodol gweithwyr proffesiynol rheoli plâu wrth reoli iechyd y cyhoedd. Mae'r BPCA yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadw cartrefi'n ddiogel, gwella'r ffordd mae ein sector yn cael ei reoleiddio a chadw offer allan o ddwylo defnyddwyr sydd heb eu hyfforddi, ac annog pobl i ddefnyddio cwmnïau sydd wedi cofrestru â TrustMark.

Drwy weithio ar y cyd, mae cymuned aelodau'r BPCA yn ymdrechu i greu cymunedau mwy diogel ac iach - sy'n rhydd rhag y bygythiadau a achosir gan blâu.

Os hoffech chi gefnogi Maniffesto'r BPCA a'r gweithwyr proffesiynol sy'n atal plâu a hefyd yn ein hamddiffyn rhagddynt, cysylltwch â ni heddiw.



"Mae'r Gymdeithas yn eirioli dros safonau uwch a phroffesiynoldeb yn y diwydiant."



**Mae'r BPCA wedi lansio PestCareers, gan gefnogi dyfodol y sector drwy annog wynebau newydd i ymuno â phroffesiwn medrus.**



**British Pest Control Association**  
4a Mallard way, Pride Park  
Derby DE24 8GX

**01332 294 288**  
**policy@bpca.org.uk**

**[bpca.org.uk/policy](https://bpca.org.uk/policy)**